29 Mai 2009

DATGANIAD I'R WASG

Castell Howell yn cefnogi am y trydydd tro

Un o gwmnïau cyflenwi bwyd annibynnol mwyaf Cymru fydd prif noddwr cystadlaethau nos Sadwrn olaf Eisteddfod yr Urdd Bae Caerdydd eleni, a hynny am y trydydd tro yn olynol.

Cefnogodd Castell Howell Eisteddfod yr Urdd am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin ddwy flynedd yn ôl, cyn parhau i noddi'r Eisteddfod yng Nghonwy y llynedd.

Eleni, mae Castell Howell yn noddi rhai o gystadlaethau mwyaf poblogaidd yr ŵyl. Yn eu plith mae Côr Merched S.S.A 14-25 oed, Côr Meibion Tri Llais 14-25 oed, Côr S.A.T.B 14-25 oed yn ogystal â'r Ddawns Stepio 12-25 oed.

Mae Castell Howell ei yn cyflogi bron i dri chan aelod o staff ac yn darparu gwasanaeth i dros bedair mil o gwsmeriaid dros Gymru gyfan, gan gynnwys Gwersyll yr Urdd Llangrannog ers dechrau'r nawdegau.

Mae Castell Howell yn falch iawn o gael noddi Eisteddfod yr Urdd unwaith yn rhagor eleni fel yr eglura Nigel Williams, Cyfarwyddwr Cyllid Castell Howell:

''Mae Bwydydd Castell Howell yn falch o fedru parhau i noddi a chefnogi Eisteddfod yr Urdd ac rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith gwerthfawr mae'r mudiad yn ei wneud i ddatblygu talentau pobl ifanc Cymru yn fawr iawn.''

Yn ôl Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru;

''Mae'r Urdd yn ddiolchgar tu hwnt i Gastell Howell am noddi nifer o'r cystadlaethau unwaith yn rhagor eleni. Mae eu cefnogaeth a'u cyfraniad cyson hwy heb os yn werthfawr iawn i ni fel mudiad ac yn ein cynorthwyo i gynnal Eisteddfod gofiadwy yma ym Mae Caerdydd yn 2009.''

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

Diwedd

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.

- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2010 ar dir Llanerchaeron yng Ngheredigion, ac Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe.

29 May 2009

PRESS RELEASE

Castell Howell supports Saturday's competitions

One of Wales' largest independent food wholesalers, will be the main sponsors of tomorrow nights' competitions at Cardiff Bay's National Urdd Eisteddfod.

Castell Howell sponsored the Urdd for the first time at Carmarthenshire's National Urdd Eisteddfod two years ago, before continuing to support the Eisteddfod in Conwy last year.

This year, Castell Howell are sponsoring some of the festivals' most popular competitions, including Female Choir S.S.A age 14-25, Male Voice Three part choir age 14-25, S.A.T.B Choir age 14-25 as well as Step Dance age 14-25.

Castle Howell employ nearly three hundred members of staff and service over four thousand customers all over Wales, including Gwersyll Llangrannog since the early nineties.

Castell Howell are pleased to be able to sponsor the Urdd Eisteddfod once again this year, as Castell Howells' Finance Director, Nigel Williams explains;

"Castell Howell Foods is delighted to be able continue its support for the Urdd Eisteddfod and appreciates the valuable work which the Urdd movement undertakes in developing the talents of the young people of Wales."

Says Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru's Chief Executive;

''The Urdd are very extremely grateful to Castell Howell for sponsoring several competitions once again this year. Their constant support and contribution is very valuable to us as an organisation and enables us to hold a memorable 2009 Eisteddfod here in Cardiff Bay.''

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

Ends

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festivals in Europe.
- 40,000 young people have competed in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in the grounds of Llanerchaeron in Ceredigion in 2010 and in Swansea in 2011.